

Mor fendigedig

“...er clod i’w ras gogoneddus, ei rad rodd i ni yn yr Anwylyd.” (adn. 6)

Beth am ddarllen Effesiaid 1:1–14 ac yna myfyrio

Meddyliwch am hyn: Petai Martin Luther heb ddarganfod y gwirionedd bendigedig o gyfiawnhad trwy ffydd a heb gychwyn pregethu fod iachawdwriaeth i’w darganfod yn Iesu Grist ac yn Iesu Grist yn unig, efallai y byddech chi a fi heddiw yn dal i ymdrechu i feddiannu iachawdwriaeth trwy seremonïau ac arferion crefyddol. Er mwyn medru gwrthwynebu’r duedd Philistaidd sydd yn parhau i fod yn amlwg mewn rhannau o’r Eglwys, mae angen i ni fod yn glir ynglŷn â gwir ystyr cyfiawnhad trwy ffydd. Dyma ddiffiniad syml: *Mae cyfiawnhad yn rhodd gras Duw, ac mewn termau cyfreithiol, mae Duw trwy’r rhodd yma yn cyhoeddi pechadur yn gyfiawn.* Pan fo pechaduriaid yn troi oddi wrth bechod ac yn eu cyflwyno eu hunain mewn ymddiriedaeth lwyr i’r Arglwydd Iesu Grist, gan gredu ei fod ef wedi marw dros eu pechodau ar y groes, y canlyniad yw eu bod yn cael eu derbyn yn yr Anwylyd. Mae ein pechod wedi ei faddau ac rydym yn cael ein cyhoeddi’n gyfiawn. Mor fendigedig yw gwirionedd yr Efengyl!

Ydych chi’n sylweddoli fod gwybod y gwirionedd yma yn gwbl unigryw i Gristnogaeth? Nid oes yr un grefydd arall yn cynnig maddeuant a bywyd newydd i’r rhai sydd yn gwbl anhaeddiannol. Mae pob crefydd arall yn dysgu rhyw ffurf ar hunan-iachawdwriaeth, a hynny trwy weithredoedd da neu fath o gariad brawdol at eraill. Mae gwir iachawdwriaeth yn dod trwy ras a thrwy ffydd. Mae Duw yng Nghrist wedi dioddef ein condemniad ni ar y groes, a does dim oll yn weddill i ni ei gyfrannu. Pan mae Duw yn cyfiawnhau pechaduriaid, mae’n eu cyhoeddi yn rhydd o unrhyw gondemniad er eu bod wedi torri’r gyfraith, oherwydd bod aberth Iesu ar y groes wedi talu’r ddyled yn eu lle. Mae’r gwirionedd yma yn clwyfo balchder rhai, oherwydd maent yn teimlo y gallant gyfrannu at eu hiachawdwriaeth. Ni allant gyfrannu dim; mae’r cyfan yn llifo o ras Duw ei hun. Pob peth.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 45:15–25; Jer. 23:5–6; 1 Cor. 1:30

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth oedd yn unigryw am Dduw Israel?
2. Beth ddylid galw’r Brenin?

Gweddi

O Dad trugarog, diolch i ti am ddangos inni fod iachawdwriaeth yn gyfan gwbl yn dod trwy ras. Does dim y medrwn ni ei gyflawni i’w haeddu. Yr wyt wedi ei rhoi inni am ddim. Yr wyf am ddiolch i dragwyddoldeb. Amen.